

Dim ymdeimlad o stori

“Ac fel yr oedd yr offeiriaid ... yn esgyn o ganol yr Iorddonen, a gwadnau eu traed yn cyffwrdd tir sych, dychwelodd dyfroedd yr Iorddonen i’w lle.” (adn. 18)

Beth am ddarllen Josua 4:1–24 ac yna myfyrio

Dydw i ddim yn petruso dweud nad oes dim asbri i’w gael wrth geisio byw y bywyd Cristnogol heb ymwybyddiaeth o stori. Caiff yr hyn yr wyf ar fin ei ddisgrifio nawr ei feirniadu gan rai fel ffrwyth gor-ddychymyg, tra bydd eraill rwy’n siŵr yn gweld bod gwirionedd ynddo.

Fe â Cristnogion i’r capel ar y Sul, ac am ennyd mae dyfroedd anhrefn a dryswch yn cilio wrth iddyn nhw ganolbwyntio ar addoli Duw. Mae gwirionedd yn chwythu’r niwl yn eu meddyliau i ffrwrdd am awr neu ddwy, ac maen nhw’n paratoi i adael a mynd allan i feddiannu’r wlad.

Mae’r gweinidog yn ysgwyd llaw efo pobl wrth iddyn nhw fynd i’w ffyrdd eu hunain ac yn cyffwrdd dwylo sy’n grynedig dan faich pryder, dicter, euogrwydd, a llawer o emosïynau eraill. Mam, o bosibl sydd newydd ddarganfod bod ei mab yn gaeth i gyffuriau. Gweithiwr ar fin colli ei swydd. Gwraig sydd wedi darganfod bod ei gŵr yn anffyddlon iddi. Teulu yn wynebu marwolaeth un annwyl. Faint o gredinwyr sy’n ffeindio o fewn oriau o gyrraedd adref fod y dyfroedd unwaith eto wedi gorlifo’r glannau, fel yn y darlleniad heddiw. Os nad oes gan Gristnogion unrhyw ymwybyddiaeth o stori – o’r hyn mae un esboniwr yn ei alw’n “wybod fod ein hanesion personol wedi eu himpio i mewn i stoc hanes yr achub” – yna fe ddaw difflastod yn fuan iawn.

O! fel yr wyf yn dyheu am glywed y neges hon yn cael ei phregethu o fwy o bulpudau: fod Duw ar waith, yn cymryd popeth sy’n digwydd yn ein bywydau a’i blethu’n rhan o stori ei Iachawdwriaeth ef. Os na welwn fanylion ein bodolaeth yma ar y ddaear fel paragraffau neu benodau yn stori Duw, yna hawdd fydd i ni ddisgyn i mewn i gors anobaith a phesimistiaeth. Dydw i ddim yn gwybod am ddim sy’n fwy effeithiol i’n galluogi i feddiannu gwlad ein hetifeddiaeth ysbrydol na’r ymwybyddiaeth fod ein storiâu personol ni’n cael eu gwau i mewn i stori Duw.

Beth am fynd ymlaen i ddarllen:

Deut. 8:5–18; Phil. 1:12–21

Meddylwch am y cwestiynau hyn:

1. Beth mae llyfr Deuteronomium yn ei gynnig fel modd i wrthsefyll digalondid a phesimistiaeth?
2. Sut gafodd stori Paul ei gwau i mewn i stori Duw?

Gweddi

Dad trugarog, agor fy llygaid imi gael gweld – gweld o ddifri’ – fod fy hanes personol i yn cyd-fynd â stori dy iachawdwriaeth di. Helpa fi, fy Nhad, oherwydd mae’n rhaid i mi gael gafael ar hyn. Yn enw Iesu. Amen.